COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Cwrs ar gyfer Gyrwyr Hŷn

Mae cwrs ar gyfer gyrwyr hŷn yn dod i Geredigion yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r cwrs wedi'i anelu at yrwyr 65 oed a hŷn. Does dim tâl ar gyfer y cwrs, a darperir cinio ar y diwrnod.

Rydyn ni eisiau'ch cadw i symud ac rydyn ni eisiau i chi fod yn annibynnol ac yn hyderus y tu ôl i'r olwyn, felly beth am fanteisio ar y diwrnod anffurfiol hwn, ac elwa o arbenigedd gweithwyr Diogelwch y Ffyrdd proffesiynol a Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy cymwys? Nid prawf gyrru yw hwn; nod y diwrnod yw gwella sgiliau a gwybodaeth a chyflwyno syniadau o ran sut i ymdrin â sefyllfaoedd llawn straen a chynllunio ar gyfer y dyfodol gyda'r bwriad o'ch cadw i yrru'n fwy diogel am fwy o amser.

Yn y bore, byddwch chi'n rhan o drafodaethau grŵp sy'n cael eu harwain gan gyflwyniad. Ar ôl cinio, bydd cyfle i yrru gyda hyfforddwr gyrru cymeradwy.

Does dim rhaid i chi ddod â'ch car er mwyn elwa o'r sesiwn hwn – byddwn ni'n darparu car.

Os hoffech fynychu'r cwrs, llenwch y ffurflen archebu isod, a'i dychwelyd yn yr amlen a ddarparwyd – yna, byddwn ni mewn cysylltiad ac yn rhoi dyddiad ar gyfer y cwrs i chi.

Cynhelir y cwrs yn Aberystwyth neu Aberaeron.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r cwrs, peidiwch ag oedi i gysylltu â *Kayleigh Tonkins, Swyddog Prosiect Diogelwch y Ffyrdd*

Ffôn: 01545 572 053

Neu anfonwch e-bost at Kayleigh.amanda.tonkins@ceredigion.gov.uk

---

FFURFLEN ARCHEBU – CWRS AR GYFER GYRWYR HŶN

Enw:……

Cyfeiriad:……

……

……

Cod Post:……

Oed:……

Ffôn:……

E-bost:……

Rhif Trwydded Yrru: ……